



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol y Bedol
Heol Cwmaman
Glanamman
Rhydaman
SA18 1DZ**

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2012

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2012

Cyd-destun

Lleolir Ysgol y Bedol yng Nglanaman ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Dalgylch yr ysgol yw'r Garnant a Glanaman. Ar hyn o bryd, mae'n addysgu 338 o ddisgyblion amser llawn a 26 rhan amser oed meithrin.

Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Dyffryn Aman ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Daw 35% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae 5% o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r ysgol yn datgan fod yr ardal lle lleolir yr ysgol o dan anfantais economaidd. Mae 27.5% o'r disgyblion yn derbyn pryddau ysgol am ddim sy'n uwch na'r canran cenedlaethol.

Mae 100 (33.8%) o'r disgyblion yn derbyn cymorth anghenion addysg ychwanegol sy'n uwch na'r ffigwr cenedlaethol (21.2%), yn cynnwys wyth disgybl sydd ar ddatganiad. Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol na thros dro yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer tua dwsin o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sydd ag anawsterau ymddygiad ac emosiynol mewn dosbarth ar wahân o'r enw 'Y Gangen'.

Y gyllideb fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Bedol yn 2011-2012 yw £3,326. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion sir Gaerfyrddin yw £18,947 a'r lleiafswm yw £3,114. Mae Ysgol y Bedol yn safle 79 o'r 100 ysgol gynradd yn sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol Ysgol y Bedol yn dda oherwydd bod:

- perfformiad disgyblion yn saith ac yn unarddeg mlwydd oed yn dda;
- safon y gwaith a welwyd yn llyfrau'r disgyblion ac yn llawer o'r gwersi yn dda;
- yr ysgol yn gymuned ofalgar sy'n datblygu ac yn hyrwyddo agweddau o les ac emosiwn yn dda;
- ystod da o brofiadau dysgu yn cael eu cyfoethogi gan nifer o ymweliadau; a bod
- partneriaethau cryf rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach;

Fodd bynnag:

- nid yw medrau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2 wedi eu datblygu'n llawn; ac
- yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r cynllunio'n sicrhau ystod lawn o brofiadau mewn gwyddoniaeth a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn sy'n cael ei rhannu â holl randdeiliaid yr ysgol;
- yr ysgol wedi gosod strategaethau cadarn ar waith i godi safonau llythrennedd ar draws yr ysgol, gyda hyn yn dechrau cael effaith ar gyflawniad y disgyblion;
- yr uwch dîm rheoli a staff yn canolbwyntio yn gyson ar godi safonau a ffyrdd o wella darpariaeth;
- ymdeimlad cryf o waith tîm o fewn yr ysgol ar bob lefel; a bod
- yr ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Argymhellion

Dylai'r ysgol:

- A1 barhau i godi safonau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2;
- A2 sicrhau fod pob agwedd o wyddoniaeth a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu TGCh yn cael ei chyflwyno'n llawn;
- A3 cynllunio mwy o gyfleon cyson i integreiddio disgyblion 'Y Gangen' i fywyd yr ysgol;
- A4 cryfhau'r broses hunan arfarnu a sicrhau bod cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys targedau meintiol er mwyn mesur cynnydd mewn safonau; a
- A5 chryfhau rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i afael â'r argymhellion. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei fonitro gan yr awdurdod lleol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau disgyblion saith mlwydd oed ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth (y pynciau craidd) wedi codi o 74% yn 2008 i 89% yn 2011. Mae hyn wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yr ysgol yn uwch na'r teulu yn y Gymraeg mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf ac mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf mewn gwyddoniaeth. Perfformiodd yr ysgol ychydig is na'r teulu mewn mathemateg am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Mae'r disgyblion a gyrhaeddodd lefel 3 neu uwch mewn gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion y teulu ac wedi bod yn uwch na'r teulu a Chymru am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Yn y pynciau eraill, mae perfformiad ar y lefel uwch yn cymharu'n ffafriol at ei gilydd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pynciau craidd wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf o 71% yn 2008 i 86% yn 2011, ac wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae perfformiad disgyblion 11 mlwydd oed sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd pynciau craidd o'i gymharu ag ysgolion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim wedi cynyddu o'r 25%-50% isaf i'r 25% uchaf dros y pum mlynedd ddiwethaf. Perfformiodd y merched yn well na'r bechgyn yn y dangosydd pynciau craidd mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf.

Yn y pynciau craidd yn unigol, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi bod yn is na chyfartaleddau'r teulu am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf, ond yn cymharu'n ffafriol yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Nid yw perfformiad y disgyblion ar lefel 5 neu uwch yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau'r teulu dros y pedair blynedd diwethaf, er y bu gwelliant sylweddol yn 2011, a'r perfformiad yn cymharu'n ffafriol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn cydweithio ac yn canolbwyntio'n dda. Maent yn adeiladu ar ddysgu blaenorol, ac yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd priodol.

Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion afael cadarn ar iaith lafar sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Dônt yn gynyddol hyderus i siarad am eu gwaith gan fynegi eu hunain yn glir. Mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen. Maent yn darllen gyda mynegiant a dealltwriaeth briodol o'r testun. Gall y rhan fwyaf drafod yn frwd am ddiwyddiadau yn y storïau maent wedi eu darllen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion cynyddol, gan ddechrau amrywio eu brawddegau a defnyddio atalnodi priodol yn eu gwaith. Mae ansawdd cyflwyniad y gwaith a llawysgrifen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda

Ar y cyfan, mae medrau llafar disgyblion cyfnod allweddol 2 yn y ddwy iaith yn datblygu'n briodol. Mae'r mwyafrif yn hyderus i siarad am eu gwaith i fynegi barn ac i ymateb i gwestiynau. Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda iawn yn y Saesneg. Maent yn darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant. Defnyddia'r mwyafrif o'r disgyblion fedrau darllen yn effeithiol er mwyn caffael gwybodaeth benodol o destun. Mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd priodol yn eu darllen Cymraeg. Mae bron pob disgybl yn darllen ar lefel sy'n addas i'w hoed a'u gallu ac mae'r mwyafrif ohonynt yn gallu trafod cynnwys y llyfr yn hyderus. Fodd bynnag, mae lleiafrif o'r disgyblion yn dangos diffyg rhuglder wrth darllen llyfrau Cymraeg. Mae disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol i wellau eu medrau darllen yn y Saesneg yn gwneud cynnydd da.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau yn y ddwy iaith. Mae gwaith llawer o'r disgyblion yn dangos safon briodol o ran cywirdeb iaith ynghyd â'r gallu i baragraffu ac atalnodi'n gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif o'r disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig o safon dda ar draws ystod o bynciau. Eto nid yw gwaith ysgrifenedig lleiafrif o'r disgyblion wedi datblygu cystal yn y Gymraeg. Nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud digon o ddefnydd o ailddrafftio i wella ar eu hymdrechion cyntaf.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Mae elfennau cyfathrebu yng gyfnod allweddol 2 yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r medrau bas data a modelu wedi eu datblygu'n ddigonol

Lles: Da

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut y gallant gadw'n iach trwy fwyta'n synhwyrol a gwella eu ffitrwydd mewn gwersi a gweithgareddau ymarfer corff.

Mae bron pob un disgybl yn ddysgwyr bodlon ac yn mwynhau bywyd yr ysgol. Mae'r mwyafrif yn mwynhau eu gwersi ac maent yn lleisio barnau synhwyrol am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Mae'r ymddygiad yn dda ac mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i oedolion a chyfoedion.

Mae cyfraddau presenoldeb yn cymharu'n ffafriol â rhai ysgolion tebyg. Mae prydlondeb wrth gyrraedd yr ysgol ac mewn gwersi yn gyffredinol dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn mynd ati'n gynyddol i gymryd cyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Nid yw hyn wedi datblygu'n llawn ym mhob dosbarth yng nghyfnod allweddol 2.

Trwy ystod o weithgareddau yn yr ysgol ar profiadau allgyrsiol, mae disgyblion yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a bywyd.

Mae'r pwyllgor eco a chyngor yr ysgol yn gwneud cyfraniad priodol i fywyd yr ysgol. Serch hynny, nid yw rôl y cyngor wedi llwyr sefydlu i gymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae rhan fwyaf o athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r gwaith yn cael ei gyflwyno trwy gyfrwng themâu sy'n dilyn trywyddion diddordeb y disgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r profiadau cyfoethog ac ysgogol yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2 nid yw'r newid i ddull thematig wedi sicrhau bod ystod y profiadau a'r medrau yn derbyn sylw llawn mewn gwyddoniaeth a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd allgyrsiol ac ymweliadau'n cael eu trefnu ar gyfer y disgyblion sy'n cyfoethogi eu profiadau'n effeithiol.

Rhoddir lle blaenllaw i ddiwylliant lleol ac i'r dimensiwn Cymreig yng nghynlluniau'r ysgol. Mae hyn yn gryfder. Caiff y disgyblion lu o gyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth leol a chenedlaethol. Mae'r gwaith thema ar 'Y Ffilltir Sgwâr', 'Glowyr Dyffryn Aman' a T. Llew Jones yn enghreifftiau nodedig o hyn.

Caiff gwaith ar gynaliadwyedd ei hybu'n dda ar draws yr ysgol. O ganlyniad i weithgareddau amrywiol, mae'r ysgol yn meithrin ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd gwarchod yr amgylchfyd. Mae ymweliadau gan bobl o dramor ac astudiaethau o wahanol grefyddau yn datblygu eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang yn briodol.

Addysgu: Da

Mae llawer o'r addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Lle mae'r addysgu'n dda, mae perthynas waith llwyddiannus yn bodoli. Crëir amgylchedd dysgu ysgogol gyda chwestiynu pwrpasol sy'n cyfoethogi'r dysgu ac yn herio disgyblion. Mae'r athrawon, at ei gilydd, yn cynnig modelau iaith da. Lle mae diffygion yn yr addysgu, nid yw cyflymder y wers yn briodol, ac mae disgwyliadau'r athrawon yn rhy isel, yn enwedig o ran herio'r disgyblion mwy abl.

Mae'r amcanion a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion yn rheolaidd. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu hintegreiddio i'r gwersi a bellach yn datblygu'n gyson ar draws yr ysgol. Er hynny, nid yw sylwadau ysgrifenedig athrawon ar waith disgyblion bob amser yn eu galluogi i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol systemau asesu trylwyr, ac mae tracio unigolion yn ofalus yn fodd effeithiol i fesur cynnydd y disgyblion.

Mae'r adroddiadau i rieni'n rhoi sylw priodol i gynnydd a datblygiad eu plant. Caiff rhieni gyfle i drafod cynnydd eu plant ar ddau achlysur yn ystod y flwyddyn ysgol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar sy'n meithrin parch a thegwch. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion. Trwy sesiynau addoli ar y cyd, mae'r ysgol yn darparu'n briodol ar gyfer datblygiad moesol, ysbrydol a chymdeithasol y disgyblion. Cynllunia'r ysgol y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn ofalus, ac mae'n chwarae rhan allweddol i ddatblygu medrau bywyd. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o ystod eang o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan yr awdurdod lleol, i gefnogi disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a systemau priodol ar gyfer adnabod, cefnogi a monitro cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan bob disgybl ar gofrestr anghenion arbennig yr ysgol gynllun addysg unigol priodol, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd mewn ymgynghoriad â rhieni a'r disgyblion. Mae'r ysgol yn dechrau nodi disgyblion mwy abl a thalentog, ond nid yw'r ddarpariaeth ar eu cyfer wedi ei datblygu'n llawn eto.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau da ar gyfer sicrhau presenoldeb

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned glos, ofalgar a chroesawgar ac mae yna ymdeimlad clir o barch a chydweithio. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda, ar y cyfan, ac y mae pob disgybl yn cael cyfleon i fod yn rhan o dimau chwaraeon ac i fynychu clybiau ar ôl ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi ffurfioli'r cyfleon y mae disgyblion 'Y Gangen' yn eu cael i fod yn rhan gynhwysol o holl fywyd yr ysgol.

Mae'r disgyblion a'r athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'r holl ofod a cheir defnydd creadigol o ardaloedd yn y Cyfnod Sylfaen, megis y 'Cwtshis Cyfathrebu'.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu lliwgar ac ysgogol sy'n fodd i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae pob dosbarth yn ddeniadol a'r arddangosfeydd yn dangos gwaith cyfredol y disgyblion. Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau ac mae'r buddsoddiad diweddar mewn adnoddau cyfrifiadurol wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau ymchwiliol a chyfathrebu'r disgyblion.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Ers sefydlu'r ysgol mewn un adeilad newydd, crëwyd gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Erbyn hyn mae'r weledigaeth wedi ei rhannu â holl staff yr ysgol, llywodraethwyr, rhieni a'r disgyblion. Trwy gydweithio effeithiol, mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd sy'n annog dysgu effeithiol a meithrin ymdeimlad o falchder yn yr ysgol a'r gymuned.

Mae'r pennaeth yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cynnig cyfeiriad strategol clir i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae cyfarfodydd yr uwch dîm rheoli a chyfarfodydd staff yn canolbwyntio yn gyson ar godi safonau a ffyrdd o wella darpariaeth.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac wedi sefydlu nifer o is-bwyllgorau i reoli'r ysgol yn effeithiol. Mae aelodau yn ymweld â'r ysgol i edrych ar agweddau penodol a chydweithio gyda'r timau cwricwlaidd gan gyflwyno adroddiadau i'r corff llawn. Derbynia'r corff adroddiadau tymhorol gan y pennaeth ac mae llywodraethwyr yn ymwybodol, yn gyffredinol, o'r meysydd sydd angen eu datblygu yng nghwricwlwm yr ysgol. Nid yw'r llywodraethwyr yn gweithredu'n ddigon heriol fel cyfeillion beirniadol mewn perthynas â pherfformiad yr ysgol a chyflawniadau disgyblion.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw dyledus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen sy'n cynnig profiadau ysgogol ac y daw ysgolion eraill i'w gweld er mwyn profi arfer dda.

Gwella ansawdd: Digionol

Mae proses hunan-arfarnu'r ysgol wedi ei seilio'n briodol ar drafodaethau staff, archwilio a diweddarau cynlluniau gwaith, dadansoddi data a cheisio barn disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Yn ogystal, mae'r ysgol yn briodol yn cynnwys yr uwch dim rheoli yn y broses o arsylwi gwersi. Mae adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol yn nodi cryfderau a rhai agweddau i'w gwella, sy'n cael eu bwydo'n briodol i gynllun datblygu'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hunan-arfarnu wedi nodi'r angen i godi safonau darllen ac ysgrifennu yn ddigon clir.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys adolygiad defnyddiol o'r cynlluniau blaenorol, ac yn nodi bwriadau priodol ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, nid oes ffocws digon clir ar godi safonau ac nid oes digon o ddefnydd o dargedau meintiol i hwyluso mesur effaith.

Mae'r grwpiau cwricwlaidd o fewn yr ysgol yn gymunedau dysgu effeithiol sy'n galluogi'r staff i rannu syniadau, gwybodaeth ac arbenigedd. Mae'r staff hefyd yn elwa o gymunedau dysgu clwstwr lleol. Enghraifft o hyn yw'r gwaith a wnaed ar safoni a chymedroli ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. O ganlyniad, crëwyd proffiliau pwrpasol iawn er mwyn gwella dealltwriaeth athrawon o ddeilliannau a lefelau gwaith y disgyblion.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau gyda'r gymuned a'r teulu o ysgolion lleol. Mae trefniadau pontio rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol yn effeithiol, ac yn galluogi disgyblion hŷn i baratoi yn dda ar gyfer cam nesaf eu haddysg. Mae'r bartneriaeth hon yn hyrwyddo cysylltiadau cwricwlaidd a bugeiliol llwyddiannus.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r gymuned yn gryf. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o adnoddau cymunedol ac yn cynnal gweithgareddau amrywiol a chyngherddau yn y neuadd gymunedol. Lleolir yr ysgol feithrin ar dir yr ysgol ac mae'r bartneriaeth yma yn un glos ac effeithiol.

Mae'r gymdeithas rhieni athrawon yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu'n effeithiol at waith yr ysgol. Prynwyd adnoddau cyfrifiadurol yn ddiweddar, sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae prosiect dysgu teulu 'Iaith a Chwarae, Rhif a Chwarae' yn enghraifft dda o bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol sy'n datblygu agweddau o gydweithio a chodi safonau.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae gan athrawon wybodaeth ac arbenigedd da i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r cynorthwywyr yn rhan effeithiol o'r tîm ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar y dysgu ac addysgu. Mae systemau rheoli perfformiad wedi ymsefydlu'n dda yn yr ysgol. Caiff hyfforddiant ei gysylltu'n glir â blaenoriaethau ysgol a rheoli perfformiad.

Mae cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn cael eu defnyddio'n effeithiol i sicrhau cynllunio bwriadus.

Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo a chyfoethogi'r addysgu.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn talu sylw effeithiol i reoli adnoddau, staffio a chyllid.

Mae'r pennaeth a phwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn adolygu gwariant yr ysgol yn rheolaidd. Mae cyswllt priodol rhwng penderfyniadau gwariant yr ysgol a blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau disgyblion saith mlwydd oed ar y lefel disgwylidig (lefel 2) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth (y pynciau craidd) wedi codi o 74% yn 2008 i 89% yn 2011. Mae hyn wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yr ysgol yn uwch na'r teulu yn y Gymraeg mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf ac mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf mewn gwyddoniaeth. Perfformiodd yr ysgol ychydig is na'r teulu mewn mathemateg am dair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae'r disgyblion a gyrhaeddodd lefel 3 neu uwch mewn gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion y teulu ac wedi bod yn uwch na'r teulu a Chymru am dair o'r pedair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pynciau craidd wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf o 71% yn 2008 i 86% yn 2011. Mae perfformiad disgyblion 11 mlwydd oed sy'n cyrraedd y lefel ddisgwylidig yn y dangosydd pynciau craidd o'i gymharu ag ysgolion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim wedi cynyddu o'r 25%-50% isaf i'r 25% uchaf dros y pum mlynedd ddiwethaf. Perfformiodd y merched yn well na'r bechgyn yn y dangosydd pynciau craidd mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf.

Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol dau mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn is na chyfartaleddau'r teulu am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Nid yw perfformiad y disgyblion ar lefel 5 neu uwch yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau'r teulu dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd 62 o ymatebion gan rieni.

Mae pob un yn cytuno:

- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae bron pob un yn cytuno

- eu bod yn fodlon gyda'r ysgol;
- bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da;
- bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu yn yr ysgol;
- bod yr addysgu'n dda a bod y staff yn disgwyl i'w plentyn wneud ei orau;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff;
- bod y staff yn trin pob plentyn gyda pharch a bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol priodol.
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; a
- bod eu plentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae'r rhan fwyaf yn nodi

- bod y gwaith cartref yn adeiladu ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau;
- eu bod yn cael gwybodaeth cyson am gynnydd eu plentyn; a
- bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol, a'u bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Mae 93% o rieni yn nodi bod yr ymddygiad yn dda, sydd ychydig is na'r ffigur cenedlaethol o 96% ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Ymateb i'r holiaduron dysgwyr

Derbyniwyd 158 o ymatebion cyfnod allweddol 2.

Mae pob un yn nodi:

- bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.

Mae bron pob un yn nodi:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni;
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd a bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd
- bod y gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol; a
- bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf yn nodi:

- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

Mae llawer yn credu:

- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.

Yn gyffredinol, mae ymatebion yr ysgol yn debyg i ymatebion ar draws Cymru. Mae 87% o disgyblion Ysgol y Bedol o'r farn bod yr ysgol yn delio ag unrhyw fwlio, sydd ychydig is na'r ffigwr cenedlaethol o 92%

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Anwen Griffith	Arolygydd Cofnodol
Maldwyn Pryse	Arolygydd Tîm
Eleri Hurley	Arolygydd Tîm
Alan Parry	Arolygydd Lleyg
Aled Davies	Arolygydd Cymheiriaid
Donna Williams	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Cwricwlwm Cenedlaethol

Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.